

# ADRODDIAD YMGYNGHORI

## Ar Sefydlu Ysgol Gynradd Cyfrwng Gymraeg Newydd yn Nhrefynwy

## Cynnwys


1. Cyflwyniad 3
2. Dosbarthu'r Adroddiad Ymgynghori 4
3. Cefndir 5
4. Amlinelliad o'n cynnig 5
5. Trefniadau'r Ymgynghoriad 6
   5.2 Cyfarfodydd Ymgynghori 6
   5.3 Ymgynghori â'r plant a'r bobl ifanc 12
6. Ymatebion i'r Ymgynghoriad 14
   6.1 Crynodeb o ganlyniadau'r ymgynghoriad 14
   6.1 Barn y Gwasanaeth Cyflawni Addysg 21
7. Ymateb ESTYN 22
8. Asesiad o'r Cynnig 22
   8.1 Ansawdd a Safonau mewn Addysg 24
   8.2 Effaith ar y Gymuned 24
   8.2 Effaith ar Drefniadau Teithio 25
9. Argymhellion 26

Atodiad 1 - Rhestr o Ymgyngoreion 27

Atodiad 2 - Ymateb gan Estyn 28

## 1. Cyflwyniad

Mae dyletswydd statudol gan Gyngor Sir Fynwy i sicrhau ein bod yn darparu lleoedd ysgol digonol ac addas i blant o fewn ei Sir, ac wrth wneud hyn, yn sicrhau bod adnoddau a chyfleusterau yn cael eu defnyddio yn effeithiol er mwyn medru cynnig y cyfleoedd addysgol y mae ein plant yn eu haeddu.

Mae’r cyfrifoldebau gan y Cyngor fel rhan o’r Ddeddf Safonau a Threfniadau Ysgolion (Cymru) 2018 i ymgynghori gyda’r rhanddeiliaid allweddol wrth ystyried unrhyw gynigion sylweddol i ad-drefnu ysgolion.

Roedd y Cyngor wedi cynnal proses ymgynghori statudol a oedd yn ymwneud gyda sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn Nhrefynwy.

Pwrpas cynnal yr ymgynghoriad statudol yw chwilio am farn ein cymunedau, rhanddeiliaid allweddol a’n partneriaid, ar y cynnig.

Mae’r adroddiad ymgynghori hwn nawr yn cynrychioli cyfrifoldebau’r Cyngor, yn unol gyda Ddeddf Safonau a Threfniadau Ysgolion (Cymru) 2018, i greu adroddiad sydd yn ceisio llywio partïon â chanddynt fuddiant yng nghanlyniad yr ymgynghoriad drwy:

- Crynhoi pob un o’r materion sydd wedi eu codi gan ymgyngoreion.
- Ymateb i’r rhain drwy gynnig eglurhad, diwygio’r cynnig neu wrthod y pryderon gan gynnig rhesymau dros wneud hyn.
- Amlinellu barn Estyn (fel sydd wedi ei ddarparu yn yr ymateb i’r ymgynghoriad) o rinweddau cyffredinol y cynllun.

## 2. Dosbarthu'r Adroddiad Ymgynghori

Cyhoeddwyd yr adroddiad ymgynghori ar Wefan Cyngor Sir Fynwy – Ad-drefnu Ysgolion - Sir Fynwy. Roeddem wedi cysylltu gyda'r ymgyngoreion a phartïon â chanddynt fuddiant canlynol er mwyn eu hysbysu bod y ddogfen hon wedi ei chyhoeddi.

- Rhieni, gofalwyr/gwarcheidwaid ac aelodau staff yr ysgolion sy'n cael eu heffeithio gan y cynnig
- Corff Llywodraethu unrhyw ysgol sy'n cael ei heffeithio gan y cynnig
- Disgyblion/Cynghorau Disgyblion yr ysgolion sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y cynnig
- Penaethiaid yr ysgolion sy'n cael eu heffeithio gan y cynnig
- Gweinidogion Cymru
- Holl Gynghorau Tref a Chymuned Cyngor Sir Fynwy
- Holl Aelodau Senedd Cymru sy'n cynrychioli'r ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan yr ysgol
- Holl Aelodau Senedd San Steffan sy'n cynrychioli'r ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan yr ysgol
- Cyfarwyddwyr Addysg yr Awdurdodau Lleol agos – Blaenau Gwent, Casnewydd, Powys, Torfaen, Swydd Henffordd, Caerloyw
- GAVO
- Undebau llafur dysgu
- Undebau llafur – staff cymorth
- Comisiynydd y Gymraeg
- ESTYN
- RHAG
- Mudiad Meithrin
- Cyfarwyddwr Addysg, Ymddiriedolaeth Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru
- Cyfarwyddwr Addysg, Ymddiriedolaeth Esgobaethol yr Eglwys Gatholig
- Gwasanaeth Cyflawni Addysg De Ddwyrain Cymru
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent
- Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Fforwm Cymraeg mewn Addysg

## 3. Cefndir

Mae dwy Ysgol Gynradd cyfrwng Cymraeg yn Sir Fynwy ar hyn o bryd, sef Ysgol Gymraeg Y Fenni sydd yng ngogledd y sir yn y Fenni ac Ysgol Gymraeg Y Ffin yn ne'r Sir yng Nghil-y-coed.

Rydym wedi cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y gogledd drwy gynyddu capasiti Ysgol Gymraeg Y Fenni i 317. Mae yna gynnig bod yr ysgol hefyd yn cael ei symud i safle newydd ym Medi 2024, a fydd yn caniatáu'r ysgol i gynnig lle i 420 o ddisgyblion.

Rydym wedi cwblhau'r gwaith o ail-wampio ac ehangu Ysgol Gymraeg Y Ffin er mwyn sicrhau bod capasiti gan yr ysgol ar gyfer 210 o ddisgyblion, gyda Chylch Meithrin ar safle'r ysgol.

Tra bod y rhain yn ddatblygiadau pwysig, rydym yn cydnabod fod gogledd-ddwyrain Sir Fynwy heb unrhyw ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd, ac yn unol gyda'n Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, rydym yn bwriadu agor ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn Nhrefynwy.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae gwaith sylweddol wedi ei wneud er mwyn ceisio dod o hyd i leoliad addas ar gyfer ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg o fewn ardal Trefynwy. Fodd bynnag, nid ydym wedi llwyddo i ddod o hyd i safle addas o fewn y dref yn sgil diffyg argaeledd tir a chyfyngiadau amgylcheddol.

Er ein bod wedi edrych y tu hwnt i'r ardal hon, roedd unrhyw safleoedd arfaethedig a oedd wedi eu hystyried yn rhai anaddas neu roedd y pellter yr oedd angen teithio yn ormod.

## 4. Amlinelliad o'r cynnig

Roedd yr Awdurdod Lleol wedi ymgynghori ar y cynnig i sefydlu ysgol gynradd 'egin' cyfrwng Cymraeg 3-11 ar safle Ysgol Gynradd Overmonnow o'r 1af Medi 2024. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy ddefnyddio'r adeiladau presennol sydd ar safle'r ysgol. Bydd Meithrinfa a darpariaeth Gofal Plant yr Awdurdod Lleol yno hefyd.

O fis Medi 2023, bydd yna ddosbarth cyfrwng Cymraeg yn cael ei leoli ar safle Ysgol Gynradd Overmonnow a bydd y ddarpariaeth hon o dan arweinyddiaeth, rheolaeth a llywodraethiant Ysgol Gymraeg Y Ffin. Os caiff y cynnig ei gytuno, bydd ysgol gynradd 'egin' cyfrwng Cymraeg newydd yn cael ei sefydlu. Felly, nid yw'r dosbarth sydd i'w sefydlu o fis Medi 2023 yn ysgol gynradd Overmonnow yn rhan o'r ymgynghoriad hwn.

Bydd yr ysgol yn agor i ddechrau ar gyfer disgyblion yn y Feithrinfa, Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1, a'r disgyblion sydd yn mynychu'r dosbarth sydd i'w sefydlu o fis Medi 2023 yn trosglwyddo'n awtomatig i'r ysgol newydd.

## 5. Trefniadau Ymgynghori

Ar 18fed Ionawr 2023, roedd Cabinet y Cyngor wedi cymeradwyo'r cynnig i ddechrau ymgynghoriad statudol, gan ganiatáu'r Cyngor i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ar sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ar safle Ysgol Gynradd Overmonnow.

Yn unol gyda'r Ddeddf Safonau a Threfniadau Ysgolion (Cymru) 2018, roedd y Cyngor wedi creu dogfen ymgynghori, a gyhoeddwyd ar 29ain Mawrth 2023, sydd hefyd yn cynrychioli dechrau'r cyfnod ymgynghori statudol. Roedd y cyfnod ymgynghori ffurfiol wedi parhau am 8 wythnos (gan gynnwys 20 diwrnod ysgol), gan orffen ar 15fed Mai 2023.

Roedd y ddogfen ymgynghori/dolenni wedi eu rhannu gyda'r holl ymgyngoreion statudol a restrir ar dudalen 4 o'r ddogfen hon. Roedd y ddogfen ymgynghori hefyd wedi ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor - Ad-drefnu Ysgolion - Sir Fynwy.

Roedd y Cyngor wedi codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad drwy gyfrwng ymgyrch bostio i'r holl ymgyngoreion statudol, gan gynnwys rhieni, staff, a'r cyrff llywodraethu yn yr ysgolion sydd wedi eu heffeithio gan y cynnig. Cynhaliwyd ymgyrch farchnata hefyd gan wneud defnydd o rwydweithiau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor drwy gydol y cyfnod ymgynghori er mwyn hyrwyddo'r cynigion ac esbonio sut y gallai'r ymgyngoreion gyfrannu at y broses.

Hysbyswyd ymgyngoreion o'r cyfleoedd canlynol i ymateb yn ffurfiol i'r cynigion ymgynghori:

- Cwblhau'r holiadur ar-lein drwy fynd i Ad-drefnu Ysgolion - Sir Fynwy
- E-bostio strategicreview@monmouthshire.gov.uk.

### 5.2 Cyfarfodydd Ymgynghori

Roedd y Cyngor yn frwdfrydig i ymgysylltu yn ystod y cyfnod ymgynghori gyda'r holl bartïon â chanddynt fuddiant.

Yr ysgol sydd yn cael ei heffeithio'n uniongyrchol gan y cynnig yw Ysgol Gynradd Overmonnow, ac felly, cynhaliwyd sesiynau ymgynghori gyda staff, llywodraethwyr a rheini yr ysgol. Cynhaliwyd sesiwn ymgynghori arall gyda chynulleidfa ehangach, yn caniatáu'r Cyngor i ymgysylltu gyda'r holl bartïon â chanddynt fuddiant yn y cynigion yma.

Cynhaliwyd y sesiynau ymgynghori canlynol yn Ysgol Gynradd Overmonnow ar y dyddiadau / amseroedd canlynol:

| Ymgynghorai | Dyddiad | Amser |
|---|---|---|
| Rhieni | 25ain Ebrill 2023 | 2:15pm |
| Staff | 25ain Ebrill 2023 | 3:15pm |

| | | |
|---|---|---|
| Llywodraethwyr | 25ain Ebrill 2023 | 4:15pm |
| Partïon â Chanddynt Fuddiant | 25ain Ebrill 2023 | 5:30pm |

Roedd y Swyddogion canlynol o'r Gyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc y Cyngor wedi mynychu'r sesiynau ymgynghori, gan roi cyfle i randdeiliaid i ddysgu mwy am y cynigion a gofyn unrhyw gwestiynau neu fynegi unrhyw bryderon.

- Aelod Cabinet ar gyfer Addysg
- Prif Swyddog ar gyfer Addysg
- Pennaeth Cyraeddiadau a Chyflawniad
- Rheolwr Gwasanaethau Cyllid a Chymorth
- Rheolwr Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu
- Arweinydd Derbyn a Chynllunio Ysgolion

Roedd Swyddogion a oedd yn bresennol yn y cyfarfodydd ymgynghori wedi rhoi sicrwydd bod unrhyw sylwadau neu bryderon a fynegwyd yn cael eu nodi a'u hystyried fel rhan o'r broses ymgynghori. Fodd bynnag, roedd ymgyngoreion wedi eu hannog i gyflwyno ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad drwy unrhyw un o'r ddulliau a nodwyd.

**<u>Sesiwn ymgynghori gyda rhieni</u>**

Roedd y sesiwn ymgynghori gyntaf wedi ei chynnal gyda rhieni ag Ysgol Overmonnow ac roedd 6 rhiant wedi mynychu.

Roedd y rhanddeiliaid a oedd yn bresennol am ddysgu mwy am y cynnig ac roedd ganddynt ddiddordeb mewn addysg Gymraeg ar gyfer eu plant. Mae crynodeb o'r prif bwyntiau a godwyd yn ystod y sesiwn ac ymateb y Cyngor i'w gweld isod:

| Sylw / Cwestiwn | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| A fydd rhannau o  Overmonnow yn cael eu rhannu neu a fydd yr ysgol newydd mewn 3 ystafell ddosbarth yn unig? | Bydd angen sicrhau bod rhai rhannau o'r ysgol yn cael eu rhannu fel y neuadd, meysydd chwarae a'r ffreutur, ond bydd amserlen yn cael ei chadarnhau a'i rheoli ar y cyd rhwng y ddwy ysgol. |
| Beth yw'r cynllun hirdymor os yw'r ysgol yn llwyddiannus? | Rydym am sicrhau bod yr ysgol yn llwyddiannus. Mae'r Awdurdod yn adolygu ei ddarpariaeth addysgol ar hyn o bryd draws y Sir, gan ystyried data fel cyfraddau   genedigaethau, ymrwymiadau o ran twf tai a modelu'r potensial ar gyfer twf tai yn y dyfodol. Mae'r ddarpariaeth ar draws Sir Fynwy a'r  ardaloedd cyfagos yn mynd i ystyried rôl addysg cyfrwng Cymraeg yn y broses honno. |

| | |
|---|---|
| A fydd yn debyg i'r Fenni lle nad yw Saesneg fel pwnc yn cael ei ddysgu tan Flwyddyn 3? | Ydy. Mae hyn yn wir am bob ysgol cynradd cyfrwng Cymraeg. |
| A fydd y feithrinfa yn hyblyg o ran oriau a diwrnodau - a fydd rhaid i ni fynychu'r 5 sesiwn? | Mae disgyblion sydd yn mynychu meithrinfa'r Awdurdod Lleol yn gorfod mynychu 5 sesiwn yr wythnos. |
| A yw un o'r ystafelloedd dosbarth ar gyfer y Feithrina? | Ydy – bydd yna ystafell ddosbarth ar gyfer y Feithrinfa yn y bore a Gofal Plant cofleidiol yn cael ei ddarparu yn y prynhawn. |
| Sut fydd hyn yn gweithio gyda grwpiau blwyddyn cymysg? | Bydd yna ystafell ddosbarth ar gyfer y Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2, ac wrth i'r ysgol dyfu, bydd Ystafell Ddosbarth ar gyfer Blynyddoedd 3,4,5 a 6. |

**<u>Sesiwn ymgynghori gyda staff</u>**

Roedd yr ail sesiwn ymgynghori wedi ei chynnal gyda staff yn Ysgol Gynradd Overmonnow ac roedd19 aelod o staff wedi mynychu.

Roedd y rhanddeiliaid a fynychodd yn frwdfrydig i ddysgu mwy am y newidiadau sydd i'w gwneud i adeilad yr ysgol ac effaith hyn ar strwythur a chapasiti yr ysgol. Roeddynt hefyd yn bryderus am fynediad i safle'r ysgol gan fod yna bryderon ynglŷn â sut i reoli'r traffig a gallai'r cynnig yma waethygu'r sefyllfa.

Mae yna grynodeb isod o'r prif bwyntiau a godwyd ynghyd ag ymateb y Cyngor:

| Sylw / Cwestiwn | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Os ydym yn colli 3 ystafell ddosbarth, a fyddwn yn derbyn 3 ystafell ddosbarth ychwanegol? | Bydd dwy ystafell ddosbarth yn cael ei hadeiladu lle y mae'r cabanu dwbl dros dro wedi ei lleoli ar hyn o bryd. Bydd hyn yn rhoi'r capasiti i'r ysgol ar gyfer 360 o ddisgyblion, sydd yn ddigonol yn ein barn ni, a hynny'n seiliedig ar y nifer o ddisgyblion sydd yn cael eu rhagweld. |
| Pam nad yw'r ysgol Gymraeg newydd yn cael ei gosod yn yr adeilad newydd? | Byddwn angen medru rhannu'r safle a'n sicrhau bod yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd yn meddu ar fynediad penodol. Ni fyddai hyn o bosib petai'r disgyblion dal wedi eu lleoli yn y cabannau gan eu bod wedi eu lleoli yng nghefn yr ysgol. |
| Mae parcio yn annigonol ar y safle: a fydd hyn yn cael ei ddatrys cyn bod yr ysgol newydd yn cael ei hagor? | Byddwn yn edrych ar faterion sydd yn ymwneud â chael mynediad i'r ysgol fel rhan o'r adeilad newydd a'n ystyried opsiynau i fynd i'r afael â hyn. |

| | |
|---|---|
| A fydd y gwelliannau yn cynnwys toiledau gan mai ond 3 toiled staff sydd yma ar hyn o bryd, sy'n gwbl annigonol. | Unwaith y mae'r dyluniadau cychwynnol wedi eu cwblhau, bydd y Cyngor yn cwrdd â'r Pennaeth er mwyn rhannu'r cynlluniau a bydd yr ysgol yn chwarae rhan yn y broses gyfan. Byddwn yn sicrhau bod y ddarpariaeth o ran toiledau yn gyson gyda'r canllawiau Bwletin Adeiladau. |
| Sut y bydd hyn yn effeithio ar ein cyllideb, e.e. sut y bydd costau yn cael eu rhannu, fel costau glanhau, gofalwr ayyb? | Byddwn yn parhau i ariannu'r gwasanaethau sydd i'w darparu i Ysgol Gynradd Overmonnow er mwyn talu am y costau yma. Yr un staff fydd yn darparu'r gwasanaethau yma i'r ddwy ysgol. |
| A yw disgyblion o Feithrinfa Overmonnow yn medru cael mynediad at y ddarpariaeth Gofal Plant cofleidiol? | Bydd modd i ddisgyblion sydd yn mynychu Meithrinfa Overmonnow i dderbyn Gofal Plant cofleidiol ond bydd y ddarpariaeth yn y Gymraeg. |

Yn ogystal â'r cwestiynau a restrwyd uchod, nodwyd y sylwadau canlynol:

- Mae Ysgol Gynradd Overmonnow yn rheoli plant ADY yn dda ac mae hyn oherwydd bod ganddynt fynediad i ardaloedd megis y cabannau dros dro, ac maent yn cael eu defnyddio fel ardaloedd ymneilltuo. Mae angen cynnal yr ardaloedd hyn; mae'n rhaid i ni ymladd drostynt.
- Mae'n teimlo eich bod yn ceisio gwasgu gormod ar y safle hwn; mae gennym ysgol cyfrwng Saesneg, meithrinfa a'r SNRB eisoes.
- Bydd pobl leol yn gwrthwynebu colli unrhyw ran o'r parcdir ar gyfer parcio.

**Sesiwn ymgynghori gyda'r Corff Llywodraethu**

Cynhaliwyd y drdyedd sesiwn ymgynghori gyda Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Overmonnow a mynychodd 7 aelod o'r Corff Llywodraethu.

Roedd gan y rhanddeiliaid a oedd yn bresennol bryderon ynghylch y rhaglen adeiladu gan ofyn a oedd modd cwblhau'r holl waith yn ystod gwyliau'r haf. Eto, un o'r prif bryderon oedd mynediad i safle'r ysgol a'r materion parcio, gan nad oes digon o le i'r staff i barcio yn yr ysgol.

Mae crynodeb o'r prif bwyntiau a godwyd yn ystod y sesiwn ac ymateb y Cyngor wedi'u rhestru isod:

| Sylw / Cwestiwn | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Mae'n bwysig nad ydym yn colli mannau ymneilltuo os byddwn yn colli'r cabannau dros dro. | Unwaith y bydd y dyluniadau cychwynnol wedi'u cwblhau, bydd y Cyngor yn rhannu'r rhain gyda'r Pennaeth fel bod modd cynnig adborth |

| | |
|---|---|
| | a bydd y dyluniadau'n cael eu datblygu ar y cyd â'r ysgol. |
| A fydd llawer o aflonyddwch yn ystod y gwaith adeiladu, yn enwedig os yw ar ei hôl hi, a gallai hyn fod yn gythryblus iawn i blant ifanc? | Bydd y rhan fwyaf o'r gwaith yn cael ei wneud yn ystod y gwyliau. Bydd unrhyw waith a wneir yn ystod y tymor yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y disgyblion. |
| A fydd staff amser cinio yn cael eu rhannu, ac a fydd disgwyl iddynt siarad Cymraeg? | Ni fydd angen i staff y ffreutur i siarad Cymraeg. |
| Hoffai'r Corff Llywodraethu dderbyn sicrwydd y byddai buddsoddiad sylweddol yn y trefniadau mynediad presennol a fyddai'n caniatáu i ddisgyblion y ddwy ysgol i gael mynediad diogel i'r ysgol. Heb newid hyn ar unwaith byddai gennym bryderon y gallai'r teuluoedd presennol a theuluoedd y dyfodol ddewis ymatal rhag aros neu wneud cais i Ysgol Gynradd Overmonnow oherwydd pryderon logistaidd. | Bydd gwella mynediad i safle'r ysgol yn rhan o'r gwaith ailddatblygu sy'n cael ei gynnig. Bydd yr holl ddyluniadau yn cael eu datblygu drwy ymgynghori â'r Pennaeth a Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Overmonnow. |
| Mae'r amserlen ar gyfer y gwaith arfaethedig yn ymddangos yn dynn iawn - a fydd y gwaith yn cael ei gwblhau ar amser? | Bydd y rhaglen waith yn cael ei chyflwyno fesul cam a'i chytuno gyda'r Pennaeth. |

**<u>Sesiwn ymgynghori gyda phartïon eraill â chanddynt fuddiant</u>**

Cynhaliwyd y bedwaredd sesiwn ymgynghori gydag unrhyw bartïon eraill â chanddynt fuddiant o'r gymuned ehangach ac roedd 13 o randdeiliaid wedi mynychu.

Roedd pryderon gan y rhanddeiliaid a oedd yn bresennol ynglŷn â'r weledigaeth hirdymor ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Nhrefynwy, os bydd y niferoedd yn tyfu y tu hwnt i 60, beth yw cynlluniau'r Cyngor. Roedd rhanddeiliaid hefyd yn bryderus nad yw'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei hyrwyddo ac nid yw rhieni'n ymwybodol o'r dosbarth newydd o fis Medi 2023. Roeddent hefyd am gael sicrwydd y byddai'r Cylch Meithrin yn cael ei ail-sefydlu yn Nhrefynwy gan mai darpariaeth Blynyddoedd Cynnar yw'r ffordd orau i dyfu addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae crynodeb o'r prif bwyntiau a godwyd yn ystod y sesiwn ac ymateb y Cyngor wedi'u rhestru isod:

| Sylw / Cwestiwn | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Pam nad yw'r ysgol newydd yn dangos fel fy ysgol ddalgylch ar y Wefan? | Mae'r dalgylchoedd yn cael eu hadolygu fel rhan o'r broses ymgynghori hon ond ni ellir eu newid nes bod penderfyniad wedi'i wneud ynglŷn ag a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig. |
| Mae angen i ni sicrhau, er ein bod yn rhannu safle, bod y plant yn cael eu trochi'n llwyr yn yr iaith Gymraeg. | Bydd yr ysgol ar wahân i Overmonnow a bydd ganddi ei mynedfa ei hun, swyddfeydd, ystafell athrawon, toiledau ac ati. Bydd unrhyw ardaloedd a rennir yn cael eu rheoli ar y cyd gan Benaethiaid y ddwy ysgol. |
| Rwy'n pryderu am y cynllun mwy hirdymor, ac mae angen i bobl wybod beth yw'r cynllun hirdymor cyn iddynt ymrwymo, felly beth sy'n digwydd pan fydd y 3 ystafell ddosbarth yn llawn? | Credwn y bydd y model tair ystafell ddosbarth sy'n cael ei gynnig yn rhoi digon o le i ni yn y tymor byr a'r tymor canolig.<br><br>Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gallai fod angen addasu'r ddarpariaeth addysgol yn Nhrefynwy a'r cyffiniau. O ganlyniad, mae'r Awdurdod ar hyn o bryd yn adolygu ei ddarpariaeth addysgol ar draws y Sir gan ystyried data megis cyfraddau genedigaethau byw, ymrwymiadau twf tai presennol a modelu twf tai posib yn y dyfodol. Bydd y ddarpariaeth ar draws Mynwy a'r cyffiniau yn rhoi ystyriaeth lawn i addysg cyfrwng Cymraeg yn y broses honno. |
| Beth yw'r cynllun ar gyfer y disgyblion hyn pan fyddant yn cyrraedd oedran uwchradd gan fod angen rhoi'r un cyfleoedd iddynt â'r disgyblion mewn addysg cyfrwng Saesneg gyda mynediad i ysgol leol heb orfod teithio am gyfnod hir? | Nid yw niferoedd y disgyblion yn Sir Fynwy yn ddigon uchel i gael ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ei hun. Gan fod Sir Fynwy yn sir wledig fawr, byddai lleoliad yn broblem, oherwydd ble bynnag y'i lleolir, bydd angen i ddisgyblion i deithio cryn bellter. Mae'r Cyngor hefyd mewn trafodaethau gydag Awdurdodau Lleol cyfagos, Blaenau-Gwent, Powys a Merthyr, ynglŷn â'r ddarpariaeth uwchradd ranbarthol. |
| Mae darpariaeth Blynyddoedd Cynnar yn hanfodol i dyfu ysgol, ac mae angen sicrwydd y bydd hyn yn cael ei ailsefydlu. Mae gan y Cylch Meithrin drysorydd ac ymddiriedolwyr o hyd, felly | Ein dealltwriaeth ni oedd bod y Cylch Meithrin wedi cau oherwydd staffio; fodd bynnag, byddwn yn cysylltu â'r Mudiad Meithrin ac yn darparu unrhyw |

| | |
|---|---|
| mae angen cydlynu ymdrechion gyda CSF i gadw momentwm? | gefnogaeth y gallwn i geisio cael Cylch Meithrin Trefynwy ail-ddechrau. |
| A oes trothwy y mae angen ei gyrraedd er mwyn i'r Cabinet gytuno ar yr ysgol newydd hon? | Na, byddwn yn gweithio gyda'r holl randdeiliaid er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn llwyddiant. Rydym yn cydnabod y gall y niferoedd ar y gofrestr fod yn isel yn y Blynyddoedd Cynnar ond rydym wedi ymrwymo i ddarparu cynnig dwyieithog yn ardal Trefynwy. |
| A oes modd i ni agor y Feithrinfa ar gyfer sesiynau diwrnod llawn? | Efallai y byddwn yn medru ystyried opsiynau eraill ar gyfer y flwyddyn gyntaf i ysgogi galw ond nid hyn yn rhywbeth y mae modd i ni gynnig yn barhaol. |

Yn ogystal â'r cwestiynau a restrir uchod, nodwyd y sylwadau canlynol hefyd:

- Dylai Cyngor Sir Fynwy fod yn cyfleu'r neges nad yw hyn yn ymwneud â thanseilio addysg cyfrwng Saesneg ond yn hytrach yn rhoi dewis i deuluoedd.
- Mae angen i Drefynwy i gymryd rhan; mae angen codi ymwybyddiaeth o werthoedd cadarnhaol addysg cyfrwng Cymraeg.
- Mae angen cyhoeddusrwydd ar lefel leol yn ogystal ag ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Mae angen rhoi cyhoeddusrwydd i ddelweddau o'r ysgol newydd

## 5.3 Ymgynghori gyda phlant a phobl ifanc

Datblygodd y Cyngor fersiwn o'r ddogfen ymgynghori a oedd yn benodol ar gyfer plant er mwyn sicrhau y gallai plant a phobl ifanc ar gofrestr yr ysgol yr effeithir arni gael eu cynnwys yn llawn yn y broses ymgynghori.

Cynhaliwyd sesiwn ymgynghori ar 11eg Mai 2023 gyda phlant a phobl ifanc o Ysgol Gynradd Overmonnow. Hwyluswyd y sesiwn gan staff yr ysgol a swyddogion yr Awdurdod Lleol, a'r nod allweddol oedd dysgu am farn plant a phobl ifanc ar y cynnig i sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg.

Trefnwyd grŵp cynrychioliadol o ddisgyblion gan yr ysgol i gwrdd â chynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol er mwyn rhannu eu barn ar y cynnig. Defnyddiwyd fersiwn gryno o'r ddogfen ymgynghori i atgoffa'r bobl ifanc o'r cynnig. Roedd y sesiwn yn anffurfiol, gyda phlant a phobl ifanc yn cael cyfle i siarad yn agored a gofyn cwestiynau. Fodd bynnag, gofynnwyd rhai cwestiynau i'r bobl ifanc i ysgogi trafodaeth.

Mae'r canlynol yn grynodeb o'r cwestiynau / sylwadau a dderbyniwyd gan y plant a'r bobl ifanc ac ymateb y Cyngor:

| Sylw / Cwestiwn | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| A fyddant yn cymryd rhan mewn digwyddiadau ysgol megis dathliadau'r Nadolig / gwasanaethau / gwibdeithiau ysgol / diwrnodau di-wisg ac ati | Bydd yr ysgol newydd ar wahân i'ch ysgol chi ond efallai y bydd cyfleoedd i'r ddwy ysgol i ddod at ei gilydd ar gyfer digwyddiadau arbennig a gallwch ddysgu oddi wrth eich gilydd. Mae hyn yn rhywbeth y gall Penaethiaid y ddwy ysgol ei drafod. |
| A fyddant yn cael chwarae gyda ni amser egwyl ac amser cinio? A fydd yr iard yn cael ei rhannu? | Ni fyddant yn cael yr un amser cinio ac egwyl â chi gan y bydd yr ysgol newydd ar wahân. Byddant yn rhannu iard eich ysgol ac yn ei ddefnyddio ar adegau gwahanol. |
| A ydynt yn mynd i ymuno gyda ni fel rhan o'r gwersi Addysg Gorfforol? | Na - byddant yn derbyn gwersi Addysg Gorfforol eu hunain. |
| A fyddant yn cyfrannu at ein gwersi? | Na - bydd y ddwy ysgol yn rhannu'r un tir ond bydd ganddynt eu gwersi eu hunain a'n cael eu haddysgu yn Gymraeg |
| A ydych yn mynd i awgrymu unrhyw newidiadau i'r ysgol a sut y bydd y newidiadau yn effeithio arnom? | Bydd newidiadau i adeilad yr ysgol, ac felly bydd dwy ystafell ddosbarth newydd yn cael eu hadeiladu lle mae'r cabanau ar hyn o bryd. Bydd y tair ystafell ddosbarth yr ochr arall i'r ffreutur yn cael eu newid er mwyn i'r ysgol newydd symud i'r ystafelloedd dosbarth hynny, ac felly, ni fyddwch yn eu defnyddio mwyach. |
| A fydd yr ysgol newydd yn dechrau ac yn gorffen ar yr un pryd â ni? | Mae hyn yn rhywbeth y gall y ddau Bennaeth ei drafod er mwyn datrys hyn. |
| A fydd gennym athrawon gwahanol a faint o athrawon fydd yna? | Bydd yr un athrawon gennych a bydd gan yr ysgol newydd athrawon ar wahân a bydd athro a chynorthwyydd dysgu yn yr ysgol newydd. |
| A fydd gan yr ysgol newydd wisg ysgol ac enw? | Byddant yn gwisgo gwisg ysgol wahanol i chi a bydd gan yr ysgol enw newyddond nid yw hyn wedi'i benderfynu eto. |
| A fydd y plant i gyd yn yr un dosbarth, ac a fydd 3 ystafell ddosbarth yn ddigon? | Bydd y dosbarthiadau'n cael eu rhannu fel bod y grwpiau blwyddyn is mewn un dosbarth a'r grwpiau blwyddyn uwch mewn un arall. Ar hyn o bryd mae 3 ystafell ddosbarth yn ddigonol,ac os bydd y niferoedd yn tyfu a bod angen |

| | |
|---|---|
| | mwy yn y dyfodol, yna mae hyn yn rhywbeth y bydd y Cyngor yn ei adolygu. |
| Mae gan y dosbarthiadau y byddwn yn symud allan ohonynt ardal awyr agored braf ac nid ydym am golli hyn. | Bydd ardaloedd cyfatebol neu well yn cael eu darparu. |

Roedd y disgyblion hefyd eisiau sicrhau bod disgyblion sy'n mynychu'r ysgol newydd yn teimlo bod croeso iddynt. Mae gan rai o’r disgyblion eisoes ffrindiau sy’n mynychu’r ysgol Gymraeg yn y Fenni, ac maent yn meddwl ei fod yn bwysig eu bod yn gallu mynd i ysgol Gymraeg yn nes at eu cartrefi yn hytrach na’n gorfod mynd ar fws ysgol.

## 6. Ymatebion i’r Ymgynghoriad

### 6.1 Crynodeb o ganlyniadau’r ymgynghoriad

Roedd y Cyngor wedi derbyn cyfanswm o 145 o ymatebion yn ystod yr ymgynghoriad. Mae proffil o'r ymatebwyr i'w weld yn y tabl isod:

| Categori’r Ymatebydd | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Rhiant / Gofalwr | 3 |
| Llywodraethwr | 4 |
| Staff | 7 |
| Ysgolion eraill / staff/rhieni/Llywodraethwyr | 62 |
| Cymuned | 57 |
| Undebau | 0 |
| Cynghorau Tref/Cymuned | 0 |
| Mudiadau Eraill | 12 |
| **Cyfanswm** | **145** |

O.N. Mae'r tabl uchod yn adlewyrchu nifer yr ymatebion ffurfiol a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad hwn, naill ai drwy gwblhau'r arolwg ymgynghori neu drwy e-bostio strategicreview@monmouthshire.gov.uk.


Fodd bynnag, mae unrhyw adborth anffurfiol a dderbyniwyd yn ystod y sesiynau ymgysylltu i’w weld yn adran 5.2 o’r adroddiad hwn.

Mae’r adborth i'r ymgynghoriad hwn gan ESTYN a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg wedi ei gyhoeddi ar wahân yn yr adroddiad hwn.

A ydych yn cytuno â’r cynnig i sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ar safle Ysgol Gynradd Overmonnow?

**A ydych yn cytuno gyda’r cynnig?**

**Ydw**
**Nac ydw**




Roedd 106 o’r 145 o ymatebwyr (73%) yn cefnogi’r cynnig, gyda llawer o’r ymatebwyr yn teimlo y dylai addysg cyfrwng Cymraeg fod ar gael i bob plentyn yn eu cymuned leol.

Rhoddir crynodeb isod o’r sylwadau a chwestiynau cadarnhaol a dderbyniwyd gan y 106 o ymatebwyr a oedd yn cefnogi’r cynnig ynghyd ag ymateb y Cyngor:

| Sylw / Cwestiwn | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Sir Fynwy yw un o’r Awdurdodau gwannaf yng Nghymru o ran cefnogi a hybu’r Gymraeg. Mae angen buddsoddiad sylweddol, yn enwedig yn Nhrefynwy, i hwyluso datblygiad yr iaith Gymraeg. | Mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, sy'n anelu i gynyddu’r nifer o siaradwyr Cymraeg i 1 miliwn erbyn 2050. Mae'r cynnig yn cefnogi'r targedau a nodir yng Nghynllun Strategol Addysg Gymraeg y Cyngor, sef sefydlu trydedd ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn Nhrefynwy. |

| | |
|---|---|
| Rwy'n falch ac yn gefnogol iawn o'r cynlluniau hyn, a dim ond yn dymuno iddynt fynd ymhellach, i gynnwys adeiladu darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg. | Mae'r Awdurdod Lleol mewn cydweithrediad ag Awdurdodau cyfagos yn Ne-ddwyrain Cymru yn edrych ar opsiynau posibl ar gyfer ysgol uwchradd arall yn y rhanbarth. |
| Ma ond modd i'r iaith barhau i dyfu yn yr Awdurdod drwy fuddsoddiad a chefnogaeth sylweddol a dylai Sir Fynwy fod yn cysylltu â llywodraeth Cymru os ydynt yn dymuno derbyn mwy o gefnogaeth / cyllid i gyflawni hyn. | Cytunwyd y bydd Sir Fynwy yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r buddsoddiad cyfalaf presennol sydd ei angen ar gyfer yr ysgol hon yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. |
| Mae angen mynediad i ofal plant cyfrwng Cymraeg o safon uchel (yn enwedig rhwng 0 a 4 mlwydd oed) ac addysg. | Mae mynediad at ofal plant cyfrwng Cymraeg yn rhan annatod o'n cynnig oherwydd mae'n rhoi cyfle i blant ymgysylltu â'r Gymraeg o oedran cynnar iawn a bydd yn cefnogi twf yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd. Y bwriad yw cynnig addysg gynnar i blant 3 a 4 oed mewn dosbarth meithrin a reolir gan yr ysgol a bydd hyn yn ddarpariaeth rhan amser. Rydym hefyd yn gobeithio sefydlu Cylch Meithrin nas cynhelir ar y safle a fydd yn cynnig Gofal Plant cofleidiol i'r plant hyn, yn ogystal â Gofal Plant Dechrau'n Deg i blant 2 oed. |
| Mae'r cysyniad o ddechrau gyda model 'egin' yn ymddangos yn ffordd effeithiol o lansio'r ysgol hon a fydd, gobeithio, yn gweld y galw'n cynyddu wrth i ddisgyblion yr ardal ddechrau mynychu. Fodd bynnag, mae anfanteision i hyn gan y gall rhai rhieni â brodyr a chwiorydd hŷn benderfynu nad ydynt am eu gosod mewn ysgolion ar wahân. I ba raddau yr ystyriwyd hyn? | Mae hyn wedi bod yn ystyriaeth i ni ac yn un yr ydym yn cydnabod y gallai fod yn risg. Wrth sefydlu'r model 'egin', ein gobaith yw y bydd teuluoedd newydd nad ydynt efallai wedi dewis cael mynediad i'n darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd yn dewis gwneud hynny yn Nhrefynwy ac y gallwn adeiladu cymuned ysgol ffyniannus. |
| Mae'n her recriwtio athrawon a staff cymorth Cymraeg eu hiaith yn ardal Sir Fynwy drwy'r amser. Beth yw'r cynlluniau i ddenu athrawon a staff cymorth er mwyn medru cynnal yr ysgol mewn modd effeithiol? | Bydd hwn yn gyfle cyffrous i athrawon a staff cymorth helpu i lunio gweledigaeth ac ethos yr ysgol newydd. Bydd hefyd yn darparu cyfleoedd gyrfaol i staff yn yr ardal leol sy'n chwilio am rôl yn arwain ysgol. Teimlwn y bydd hyn yn annog athrawon a staff cymorth i ymgeisio am |

| | |
|---|---|
| | swyddi. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod her i recriwtio athrawon Cymraeg ac felly bydd yr Awdurdod Lleol yn cefnogi ac yn hyrwyddo’r broses recriwtio i sicrhau ein bod yn denu digon o athrawon a staff cymorth i weithio yn yr ysgol newydd. |
| Beth yw'r rhesymau dros leoli'r ysgol newydd yn Nhrefynwy, er ei bod ar ffin y dalgylch? Yn wahanol i Opsiwn 4 Rhaglan sy'n llawer mwy canolog i'r dalgylch? | Yn sgil trafodaethau gyda'n rhanddeiliaid, yn enwedig y rhai yn y Cyngor ac ar y Fforwm Addysg Gymraeg, roedd ymdeimlad clir y byddai'r ysgol yn elwa o fod mewn ardal fwy poblog. |
| Y cynnig yw symud y dosbarthiadau presennol yn yr ysgol cyfrwng Saesneg i ystafelloedd dosbarth newydd a rhoi'r hen ystafelloedd dosbarth i'r ysgol Gymraeg newydd. Os ydym am sicrhau bod addysg Gymraeg mor ddeniadol â phosibl, beth yw’r rhesymeg dros roi’r ystafelloedd dosbarth newydd i Overmonnow a’r hen ystafelloedd dosbarth i’r dosbarth Cymraeg? | Bydd yr ysgol Gymraeg ac Overmonnow yn ddwy ysgol ar wahân ond yn rhannu'r un safle. Er mwyn hwyluso hyn, bydd angen mynediad ei hun ar yr ysgol cyfrwng Cymraeg. Mae'r ddwy ystafell ddosbarth newydd yn cael eu hadeiladu yng nghefn yr ysgol, ac felly byddai mynediad yn fwy anodd. Hefyd, bydd y ddwy ystafell ddosbarth newydd drws nesaf i'r dosbarthiadau presennol ac yn darparu toiledau ychwanegol. |

- Mae ehangu a datblygu cymuned Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg yn hanfodol i wella agwedd a barn gyffredinol pobl ifanc tuag at yr iaith.
- Wrth agor y cyfleuster hwn, byddech yn rhoi mynediad cyfartal i addysg Gymraeg i deuluoedd yn Nhrefynwy fel sy’n digwydd ledled Cymru (byddai’n wych pe bai modd agor ffrwd Gymraeg uwchradd hefyd ond un cam am y tro!)
- Gyda'r sefyllfa fel ag y mae yn Nhrefynwy, nid oes lle da ar wahân i safle Overmonnow sy'n addas. Mae’n hollbwysig bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Nhrefynwy sy’n caniatáu disgyblion i gerdded i’r ysgol.
- Mae’n bwysig cynnig y dewis o ysgol cyfrwng Cymraeg yn y dref.
- Mae'n hanfodol bwysig bod plant Trefynwy yn derbyn cyfleoedd gwerthfawr i ddysgu Cymraeg fel sy’n digwydd mewn trefi a dinasoedd eraill yng Nghymru, a hynny o oedran cynnar. Bydd hyn yn sicrhau y bydd gan genedlaethau’r dyfodol y sgiliau, y brwdfrydedd a’r cyfleoedd a gyflwynir drwy gael eu magu’n ddwyieithog fel eu cyfoedion.
- Credaf y gall cynyddu nifer yr ysgolion cyfrwng Cymraeg yn yr ardal ond bod o fudd i'r gymuned. Mae’r gystadleuaeth i fynd i mewn i ysgol Gymraeg yn uchel iawn ac mae’n amlwg bod awydd i ddysgu’r iaith - gan fy mod wedi tyfu i fyny yn Sir Fynwy ac wedi siarad â’m cyfoedion, mae llawer ohonom yn difaru nad ydym yn medru siarad Cymraeg ac yn dymuno ein bod wedi cael y cyfle i fynychu ysgol o'r fath.
- Bydd ein mab yn cael ei anfon i ysgol cyfrwng Cymraeg. Yr ysgol agosaf ar hyn o bryd yw'r Fenni. Mae’n gwbl warthus y byddai’n rhaid i’n mab deithio tua

40 milltir bob dydd i'r ysgol er mwyn siarad iaith frodorol y wlad hon, a chysylltu'n llawn â'i diwylliant a'i hetifeddiaeth.

- Rydym yn cefnogi'r cynnig hwn gan y bydd yn rhoi cyfle i blant lleol ddod yn ddwyieithog a fydd yn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn ein cymuned ac yn helpu i gadw'r Gymraeg yn fyw.
- Rwy'n meddwl y dylai hyn fod wedi digwydd yn Nhrefynwy flynyddoedd lawer yn ôl. Nid oes llawer o drefi yng Nghymru gyda phoblogaeth o 10,000 lle nad oes ysgol Gymraeg.
- Rwy'n cytuno'n gryf gyda chreu mwy o ddarpariaeth addysg Gymraeg o fewn Sir Fynwy a'n gobeithio rhyw ddydd y bydd yn arwain at yr ysgol uwchradd Gymraeg gyntaf yn y sir.
- Rwy'n cefnogi datblygiad yr ysgol newydd ac yn gobeithio y bydd y Cyngor yn penderfynu y dylid cyflymu hyn er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cael mynediad at addysg Gymraeg yn ein sir ein hunain, a hynny hyd at ddiwedd addysg Uwchradd, cyn gynted â phosibl. Yn ogystal â'r manteision ehangach i Drefynwy fel tref Gymreig a'i thrigolion, bydd hyn yn lleihau'r pwysau ar Ysgol y Fenni. Mae'n cynnig dewis i rieni ac yn lleihau'r effaith amgylcheddol o deithio cryn bellter i'r Fenni.

Nid oedd 39 o'r 145 o ymatebwyr (27%) yn cefnogi'r cynnig gyda llawer yn teimlo bod angen buddsoddi yn yr ysgolion cyfrwng Saesneg yn yr ardal a'n credu nad yw'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn ddigon uchel i gyfiawnhau'r swm o arian sydd i'w wario, yn enwedig yn ystod yr argyfwng ariannol presennol.

Rhoddir crynodeb isod o'r sylwadau/cwestiynau a dderbyniwyd gan y 39 o ymatebwyr nad oedd yn cefnogi'r cynnig ynghyd ag ymateb y Cyngor:

| Sylw / Cwestiwn | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Mae'r costau sy'n gysylltiedig â datblygu trydedd ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn rhy uchel, yn enwedig pan mae chwe ysgol leol yn cael eu categoreiddio fel gradd cyflwr C. A fydd cyflwr yr ysgolion hyn yn cael sylw? | Mae'r costau yn unol ag amodau presennol y farchnad a chwyddiant. Mae cyflwr yr ysgolion yn ardal Trefynwy wedi'u categoreiddio fel A, B ac C. Wrth wneud y prosiect hwn bydd yr ôl-groniad o waith cynnal a chadw yn cael sylw yn Ysgol Gynradd Overmonnow. |
| Mae'r holl ysgolion a restrir ymhell o dan eu huchafswm capasiti (ac eithrio Tryleg), pe bai diffyg lleoedd yna byddai hynny'n fater gwahanol. | Mae'r Awdurdod Lleol yn monitro lefel y lleoedd dros ben yn agos ym mhob ysgol yn Sir Fynwy. Mae'r gogledd-ddwyrain heb ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd ac o ganlyniad mae plant sydd am ddebryn addysg Gymraeg yn teithio'n bell i wneud hynny. Mae'r Cyngor yn meddwl ei bod yn bwysig bod pob plentyn yn medru derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn eu cymuned leol. |

| | |
|---|---|
| Mae 2 ysgol Gymraeg yn Sir Fynwy yn barod, mae’r costau dan sylw yn rhy uchel yn fy marn i, yn enwedig pan fo chwe ysgol leol yn cael eu categoreiddio fel C ar gyfer cyflwr. O ble fydd yr arian yn dod? | Mae’r cyllid cyfalaf ar gyfer yr ysgol hon yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru. Mae Sir Fynwy yn adolygu cyflwr ei hysgolion yn rheolaidd ac yn dyrannu unrhyw gyllid cyfalaf yn briodol. |
| Credaf nad yw’r swm o arian dan sylw yn yn syniad da o ystyried yr argyfwng ariannol presennol sy’n wynebu ysgolion a Chynghorau. Gallai'r prosiect gael ei ohirio nes bod y rhagolygon ariannol yn edrych yn fwy addawol? | Mae’r cyllid ar gyfer costau rhedeg yr ysgol eisoes wedi’i ddyrannu drwy’r broses cynllunio cyllideb ar gyfer Sir Fynwy. Mae Sir Fynwy wedi gwneud ymrwymiad clir i Lywodraeth Cymru i gefnogi addysg cyfrwng Cymraeg. |
| Sut gallwch chi gael ‘ysgol Gymraeg’ pan fydd y safle ac ati yn cael ei rhannu ag ysgol Saesneg?<br><br>Mae’n ymddangos bod y cynnig i adeiladu’r ysgol hon wedi’i seilio ar gyrraedd targedau yn unig ac nid er budd y gymuned a’r plant! | Bydd yr ysgol cyfrwng Cymraeg yn gwbl ar wahân i Overmonnow a bydd ganddi ei mynedfa ei hun, swyddfeydd, ystafell staff, toiledau ac ati. Bydd unrhyw ardaloedd a rennir yn cael eu rheoli ar y cyd gan Benaethiaid y ddwy ysgol. |
| Mae'r ysgol ei hun wedi dirywio ac mae maint dosbarthiadau yn rhy fawr. O ble mae'r adnoddau ychwanegol yn dod? O ble y daw'r gofynion arlwyo. Nid yw y Neuadd yn fawr iawn yn yr ysgol ar hyn o bryd. Mae “dosbarthiadau byncer” ychwanegol eisoes yn cael eu defnyddio. Overmonnow yw prif ysgol gynradd Trefynwy. Ni ddylid llethu’r ysgol. | Mae’r cyllid cyfalaf i gefnogi’r ysgol cyfrwng Cymraeg wedi’i ddarparu gan Lywodraeth Cymru. Mae cyflwr holl ysgolion Sir Fynwy yn cael ei adolygu’n rheolaidd ac mae unrhyw welliannau priodol sy’n gyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol yn cael eu hariannu. Derbyniodd yr ysgol gyllideb hefyd i gynnal safle’r ysgol. Fel y soniwyd uchod, bydd ardaloedd o’r ysgol a fydd yn cael eu rhannu gan y ddwy ysgol megis y neuadd a’r ardaloedd chwarae, ond bydd hyn yn cael ei amserlennu a’i reoli ar y cyd gan Benaethiaid y ddwy ysgol. |
| Mae parcio/tagfeydd yn Ysgol Gynradd Overmonnow yn ofnadwy. Fel rhiant plentyn awtistig, mae’r angen i barcio yn y maes parcio gyferbyn â’r ysgol gan groesi’r ffordd yn chwerthinllyd, yn enwedig wrth geisio dadlwytho cadair wthio yn y glaw. | Bydd gwella mynediad i safle'r ysgol yn rhan o'r gwaith ailddatblygu sy'n cael ei gynnig. Bydd yr holl ddyluniadau yn cael eu datblygu mewn ymgynghoriad â Phennaeth a Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Overmonnow. |

| | |
|---|---|
| Sut bydd mynediad i ardaloedd presennol y Cyfnod Sylfaen yn gweithio er enghraifft yr iard/neuadd os yw'r ystafelloedd dosbarth newydd ym mhen arall yr adeilad? Sut fyddwn ni'n gallu defnyddio'r neuadd ar gyfer addysg gorfforol/gwasanaeth/profion gyda thri dosbarth arall hefyd yn ceisio ei defnyddio? | Mae'r dyluniad yn cael ei ddatblygu drwy gydweithredu gyda'r Pennaeth a'r Corff Llywodraethu. |

- Mae un ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yng ngogledd a de'r sir. Mae rhieni yn Nhrefynwy yn teithio i ysgol Gymraeg y Fenni a byddai ysgol newydd yn lleihau eu niferoedd yno. Fel y de, mae rhieni yng Nghas-gwent yn gorfod danfon disgyblion i Gil-y-coed. Ysgol fechan yw Y Ffin nad yw'n cael ei defnyddio'n llawn.
- Yn ystod y cyfnod hwn, dylid gwario'r arian ar gymaint o bethau pwysicach. Er enghraifft, llyfrgelloedd gwell yn yr ysgol, cyfleusterau STEM ychwanegol, llyfrau ac ati. Mae'n ymddangos yn rhyfedd ar adeg pan fo staff presennol yn poeni am golli swyddi posib oherwydd toriadau. Hoffwn ychwanegu fy mod yn gefnogol iawn i'r Gymraeg ond dylai gwella'r ddarpariaeth bresennol gymryd blaenoriaeth.
- Adroddodd adroddiad diweddar Estyn yn Ysgol Gyfun Trefynwy fod 0.96 o blant yn siarad Cymraeg gartref mewn gwirionedd. Gallai'r arian gael ei ddefnyddio'n mewn ffordd well er mwyn darparu adnoddau hanfodol eraill y mae ysgolion eu hangen. Mae cwlt cyfan yr iaith Gymraeg wedi'i ysgogi'n gyfan gwbl yn wleidyddol gan Lafur Cymru a chenedlaetholwyr. Mae gorfodi plant i ddysgu Cymraeg ar gost dysgu pwnc arall mwy defnyddiol yn nonsens.
- Nid oes digon o ddiddordeb gan ddisgyblion a rhieni mewn addysg cyfrwng Cymraeg.
- Mae angen mwy o arian i gefnogi'r ysgolion presennol yn Sir Fynwy.
- Mae'n ymddangos bod y cynnig i adeiladu'r ysgol hon yn seiliedig ar gwrdd â thargedau yn unig ac nid er lles y gymuned nac yn wir y plant.
- Nid oes cymuned Gymraeg gref yn y rhan yma o'r wlad. Mae angen darparu cyllid i wella a datblygu ysgolion presennol y sir. Gallai hyn gynnwys mwy o addysg Gymraeg (ac yn wir ieithoedd eraill) ar draws pob ysgol, nid dim ond un ysgol newydd. Byddai hyn yn cynorthwyo'r pontio i'r ysgol uwchradd yn well neu bydd y garfan o blant wedi eu rhannu'n ormodol.

Roedd llawer o ymatebwyr yn cefnogi'r angen am ysgol cyfrwng Cymraeg newydd yn Nhrefynwy ond yn teimlo'n gryf nad yr opsiwn a ffefrir oedd yr un mwyaf addas. Isod mae crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd ynglŷn â hyn:

- Dylai'r ysgol fod yn ysgol newydd ar ei safle ei hun gan y gallai rhannu'r safle ag ysgol bresennol ddigalonni pobl. Os yw'r galw mor uchel â hynny, yna creu ysgol newydd a'i hunaniaeth ei hun gan sefyll ar wahân i ysgol arall yn Nhrefynwy.
- Unwaith eto mae CSF yn cynnig lefel is  o ddarpariaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, adeiladau ail law mewn cyflwr gwael a safleoedd a rennir -

nid yw'n ddigon da ac yn sicr nid yw'n adlewyrchu cefnogaeth ac ymrwymiad y Cynghorau i addysg cyfrwng Cymraeg.

- Ar hyn o bryd mae MCCSFC yn gofyn i rieni ddewis ysgol ar fodel 'egin' lle nad oes ganddi ysgol y mae modd ymweld â hi. At hyn, mae'r cynnig i sefydlu ysgol ar fodel 'egin' ochr yn ochr ag ymgynghoriad ar yr opsiwn mwy hirdymor o ysgol yn creu ansicrwydd i rieni ac yn creu awyrgylch o amheuaeth am ddyfodol ysgol i'r plant hynny.
- Beth yw'r cynlluniau pan fydd yr ysgol yn tyfu'n rhy fawr i'r tair ystafell ddosbarth? Bydd yn rhaid iddynt symud, yn fwyaf tebygol i Raglan, ac os felly, dylai'r ysgol ddechrau yno yn y lle cyntaf. Rwy'n siŵr y gall trigolion Trefynwy ddelio gyda thaith gymudo o 8 milltir. Mae disgyblion ar draws y sir eisoes yn teithio pellteroedd aruthrol i gyrraedd addysg cyfrwng Cymraeg, yn enwedig ar gyfer yr ysgol uwchradd.
- Hoffwn weld Cyngor Sir Fynwy yn dangos ei ymrwymiad a'i gefnogaeth drwy ganiatáu i'r ysgol newydd o leiaf gael ei safle a'i hunaniaeth ei hun sydd ar wahân i ysgol cyfrwng Saesneg.
- Teimlaf yn gryf fod angen trydedd ysgol cyfrwng Cymraeg yn y sir, fodd bynnag nid wyf yn cytuno mai safle a rennir yn Overmonnow yw'r dewis gorau o ran darpariaeth. Yr opsiwn sydd orau gen i yw lleoli'r drydedd ysgol yn Rhaglan, sydd ond deng munud o Drefynwy.
- Rwy'n meddwl mai hen Ysgol Rhaglan yw'r opsiwn gorau. Mae'r adeilad yno'n barod (yn wag) ac roedd yn ysgol cyn hynny.
- Nid yw cydleoli darpariaeth cyfrwng Cymraeg â darpariaeth cyfrwng Saesneg presennol yn gweithio. Mae'r dystiolaeth ar gyfer hyn yn glir.
- Nodaf fod goblygiadau cost yr opsiwn a ffefrir gan Gyngor Sir Fynwy yn Overmonnow yn cyfateb yn fras i leoli'r ysgol yn Rhaglan. Rwy'n credu bod yr opsiwn olaf yn opsiwn gwell. Gwn fod trochi yn yr iaith yn allweddol, yn enwedig pan na fydd y rhan fwyaf o rieni yn siaradwyr Cymraeg. Ni fydd rhannu adeilad ag ysgol cyfrwng Saesneg yn cyflawni hyn

Mae'r Cyngor wedi darparu ymateb i'r sylwadau hyn yn adran 9 isod sy'n darparu ailasesiad o'r opsiynau a ystyriwyd yn dilyn yr ymgynghoriad.

## 6.1 Barn y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA)

Mae'r Cyngor wedi comisiynu'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg i gyflwyno'r gwasanaeth Gwella Ysgolion ymhlith ysgolion yn ein sir. Mae eu hymateb i'r ymgynghoriad hwn wedi'i gyhoeddi isod:

Rydym yn cefnogi twf addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Fynwy. Mae'r cynnig yn anelu at dargedu ardal Trefynwy a'r opsiwn Overmonnow yw'r agosaf at gyflawni hyn.

Fodd bynnag, ni fydd opsiwn Overmonnow yn rhoi profiad trochi llawn i ddisgyblion sy'n sicrhau'r llwybr mwyaf effeithiol i fod yn ddwyieithog. Dylid ystyried hyn fel rhan o ailfodelu'r adeilad presennol, neu ailystyried model Rhaglan.

Mae'r ymateb i'r pryderon a godwyd gan y GCA i'w weld yn adran 8 lle mae'r Cyngor wedi cynnal ailasesiad o'r opsiynau a ystyriwyd yn wreiddiol.

## 7. Ymateb ESTYN

Mae'r ymateb llawn gan Estyn i'w weld yn atodiad 2 yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, fel crynodeb, mae'r ymateb yn datgan bod y cynnig yn debygol, o leiaf, o gynnal safon y ddarpariaeth yn yr ardal ac yn rhoi'r sylwadau cadarnhaol a ganlyn:

Mae'r cynnig yn debygol o arwain at wella'r ddarpariaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn yr Awdurdod, yn ogystal â chefnogi strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru Cymraeg 2050.

Mae rhinweddau a gwendidau pob un o'r opsiynau a ystyriwyd yn ddigon manwl. Mae'r cynigiwr wedi nodi effaith debygol y cynnig. Yn gyffredinol, mae'r cynnig yn ystyried risgiau'r prosiect mewn modd priodol.

Mae'r cynnig yn ystyried ystod o ddewisiadau amgen yn fanwl ac yn rhoi rhesymeg ar gyfer y canlyniad a ffefrir. Mae'n ymddangos bod y cynnig yn cefnogi'r targedau yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr Awdurdod Lleol.

Mae'r cynigiwr yn ystyried effaith y cynnig ar les a gofal yn briodol. Mae'n gwneud cysylltiad rhwng cryfhau dewis rhieni yn y dref a lleihau amser teithio i'r rhai sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r cynigiwr yn awgrymu bod amseroedd teithio byrrach yn debygol o wella lles plant yn y ddarpariaeth newydd hon. Fodd bynnag, mae'r ymateb hefyd yn datgan nad yw'r cynnig yn nodi sut y bydd yn lliniaru yn erbyn materion rheoli traffig posibl.

Wrth, mae'r Cyngor yn datgan y bydd y materion rheoli traffig a brofir ar y safle yn cael sylw fel rhan o'r cynnig hwn. Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda'r ysgol a'r gymuned i hyrwyddo teithio llesol pellach a datrysiadau llwybr diogel i'r ysgol.

Nododd Estyn hefyd yn yr ymateb nad yw'r cynnig yn nodi'n ddigonol yr aflonyddwch i ddysgwyr tra bod gwaith adeiladu ac adnewyddu ar y gweill. Wrth, mae'r Cyngor yn datgan y bydd y rhan fwyaf o'r gwaith yn cael ei wneud yn ystod gwyliau'r ysgol gan leihau'r tarfu ar ddisgyblion.

## 8. Asesiad o'r Cynnig

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Cymru (2018) mae'n ofynnol i'r Cyngor gynnal asesiad pellach o'r cynnig a'r opsiynau amgen, gan ystyried y wybodaeth a dderbyniwyd yn ystod y broses ymgynghori.

Ymgynghorodd y Cyngor ar opsiwn a ffefrir i sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ar safle Ysgol Gynradd Overmonnow. Yn dilyn yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, mae'r Cyngor wedi adolygu effaith y cynigion ar y meysydd a ganlyn:

- Ansawdd a Safonau Addysg

- Yr effaith debygol ar y Gymuned
- Yr effaith debygol ar drefniadau teithio gwahanol

Mae asesiad pellach o'r opsiynau amgen a ystyriwyd cyn y cyfnod ymgynghori wedi'i gynnal a'i ddarparu isod, mae'r Cyngor dal o'r farn mai'r cynnig (opsiwn 5) yw'r opsiwn a ffefrir.

**Opsiwn 1** – Gwneud dim a chynnal y sefyllfa bresennol. Byddai hyn yn golygu na fyddai unrhyw newid i'r ddarpariaeth bresennol. Yn dilyn yr ymgynghoriad, dim ond nifer fach o ymatebwyr oedd yn teimlo nad oedd angen sefydlu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Nhrefynwy. Roedd hyn yn bennaf oherwydd eu cred nad oes digon o alw yn yr ardal a bod angen buddsoddi mwy mewn ysgolion eraill. Mae'r Cyngor wedi ystyried yr ymatebion a'n dal i gredu bod angen cael trydedd ysgol cyfrwng Cymraeg ym Sir Fynwy sy'n cefnogi'r targedau yn ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Gymraeg.

**Opsiwn 2** – Adeiladu ysgol Gynradd Gymunedol cyfrwng Cymraeg newydd ar safle newydd yn ardal Trefynwy sy'n cynnwys darpariaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai ysgol newydd yn y dref yn fwy buddiol, ond nid oes safleoedd adeiladu addas ar gael yn Nhrefynwy o hyd. Yn ogystal, ni fyddai caniatâd cynllunio yn cael ei roi oherwydd diffyg ateb strategol a nodwyd i drin ffosffadau yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff Trefynwy.

**Opsiwn 3** – Defnyddio safle Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Osbaston yn Nhrefynwy i greu darpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg ychwanegol a Gofal Plant dwyieithog. Mae'r Cyngor o'r farn nad yw hwn yn opsiwn ymarferol. Mae'r gofod ar y safle yn gyfyngedig, yn fewnol ac yn allanol ac efallai na fydd yn ddigonol ar gyfer dwy ysgol. Mae gan safle Ysgol Iau Osbaston lefydd parcio cyfyngedig iawn ar gyfer staff, ymwelwyr, a chludiant o'r cartref i'r ysgol. Byddai cynyddu nifer y staff a disgyblion sy'n defnyddio'r adeilad hwn yn arwain at bwysau ychwanegol ar le sydd eisoes yn annigonol i ddisgyblion. Mae'n debygol iawn y bydd y cynnydd hwn yn gwthio i mewn i ffordd sydd eisoes yn brysur. Byddai elfennau cyfreithiol i'w ystyried o ran perchnogaeth ac mae risg uchel o lifogydd ar y safle.

**Opsiwn 4** – Defnyddio hen adeilad ysgol iau Rhaglan i greu darpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg ac adeiladu darpariaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant cyfrwng Cymraeg newydd ar y safle. Teimlai llawer o'r ymatebwyr mai dyma'r opsiwn gorau oherwydd y ffaith y byddai gan yr ysgol ei safle ei hun a fyddai'n cefnogi trochi llawn. Roeddent hefyd yn teimlo bod Rhaglan yn lleoliad mwy addas gan ei fod yn ganolog i holl ddisgyblion y dalgylch.

Mae'r Cyngor o'r farn nad defnyddio hen Ysgol Iau Rhaglan yw'r opsiwn a ffefrir ac mae'n credu'n gryf y dylai'r ysgol newydd fod yn y dref lle mae poblogaeth uwch. Diystyrwyd hen safle Ysgol Iau Rhaglan hefyd gan fod perchnogaeth y safle yn rhan o drafodaethau parhaus gydag Ymddiriedolaeth Esgobaethol Mynwy. Mae'r adeilad mewn cyflwr gwael a thu hwnt i'w adnewyddu. Roedd trafodaethau cynnar gyda'r Fforwm Addysg Gymraeg yn diystyru'r opsiwn hwn gan fod y galw o fewn y dref ac ni fyddai disgyblion yn gallu cerdded i'r ysgol ond angen cludiant.

**Opsiwn 5 –** Defnyddio'r llety sydd eisoes ar gael ar safle Ysgol Overmonnow i sefydlu ysgol gynradd 'egin' cyfrwng Cymraeg a darpariaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant. Fel sydd wedi ei grybwyll uchod, mae'r Cyngor dal yn credu mai dyma'r opsiwn a ffefrir gan ei fod yn bwysig fod darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael yn Nhrefynwy, lle y mae  mwy o ddisgyblion yn medru cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg, a hynny o fewn pellter cerdded i'w cartrefi.

## 8.1 Ansawdd a Safonau mewn Addysg

Fel rhan o'r broses ymgynghori asesodd y Cyngor effaith y cynnig ar ansawdd a safonau Addysg, a cheir crynodeb isod. Yn dilyn canlyniad yr ymgynghoriad ac wedi ystyried yr adborth a dderbyniwyd, nid yw hyn wedi arwain at newid yn yr effaith a gaiff y cynnig ar ansawdd a safonau addysg.

Ni fydd y cynnig yn effeithio ar ansawdd y dysgu yn unrhyw un o'r ysgolion cyfrwng Saesneg yng nghlwstwr Trefynwy nac yn y naill na'r llall o'n dwy ysgol cyfrwng Cymraeg bresennol yr effeithir arnynt. Bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn derbyn y lefel briodol o her a chefnogaeth i sicrhau dysgu o ansawdd uchel. Mae gan Sir Fynwy hanes da o gyflwyno addysg gynradd o safon.

### Lles ac agweddau at  ddysgu

Bydd creu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn Nhrefynwy yn cynyddu dewis rhieni yn y dref drwy ddarparu addysg Gymraeg yn nes at adref i blant sy'n byw yng ngogledd orllewin y sir. O ganlyniad i amseroedd teithio byrrach, rydym yn disgwyl i'r cynnig wella lles y plant sy'n mynychu'r dosbarth newydd hwn yn sylweddol. Mae lles disgyblion yn flaenoriaeth sy'n cael ei monitro a'i hadrodd trwy brosesau hunanarfarnu a chynlluniau gwella ysgolion. Ni fydd y cynnig yn effeithio ar les ac agweddau tuag at ddysgu yn yr ysgolion eraill yr effeithir arnynt.

### Profiadau dysgu ac addysgu

Bydd profiadau addysgu a dysgu yn yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd yn dilyn Cwricwlwm i Gymru gyda'r Gymraeg yn iaith addysgu a dysgu. Ni fydd y cynnig yn effeithio ar brofiadau addysgu a dysgu yn yr ysgolion eraill yr effeithir arnynt.

### Cymorth a chanllawiau gofal

Bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cael ei chefnogi gan yr Awdurdod Lleol a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg i ddarparu gofal, cymorth ac arweiniad o ansawdd uchel. Ni fydd unrhyw newid mewn gofal, cymorth ac arweiniad yn yr ysgolion eraill yr effeithir arnynt.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Ni fydd unrhyw newid i ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr yn yr ysgolion eraill yr effeithir arnynt. Yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd, bydd tîm arwain yr ysgol yn derbyn cymorth ac arweiniad gan yr Awdurdod Lleol a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg er mwyn sicrhau bod arfer gorau mewn arweinyddiaeth a rheolaeth yn cael ei fabwysiadu.

## 8.2 Effaith ar y Gymuned

Yn ystod cam ymgynghori'r broses hon, cwblhaodd a chyhoeddodd y Cyngor Asesiad Effaith Integredig a oedd yn nodi y bydd Rhieni am weld eu plant yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn ardal Trefynwy yn medru cael mynediad at ddarpariaeth o fewn eu cymuned o ganlyniad i'r cynnig. Bydd hyn yn cynyddu'r cyfleoedd i fwy o ddysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol mewn lleoliadau cymdeithasol ac ystod o gyd-destunau dilys.

Yn dilyn yr ymgynghoriad ac ystyried yr adborth y consensws a gafwyd o'r ailasesiad yw y bydd effaith gadarnhaol ar y gymuned a'r iaith Gymraeg o ganlyniad i'r cynnig.

Mae'r Asesiad Effaith Integredig wedi'i ailystyried yn dilyn yr ymgynghoriad ac mae ar gael yma - www.monmouthshire.gov.uk/school-reorganisation

## 8.2 Effaith ar drefniadau Teithio

Mae'r Cyngor wedi cynnal asesiad o effaith trefniadau teithio ar gyfer disgyblion yr effeithir arnynt pe bai cynigion i sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn mynd rhagddynt ac wedi ystyried yr ymatebion a ddaeth i law yn ystod yr ymgynghoriad.

Ar hyn o bryd mae'n rhaid i deuluoedd sydd am gael addysg cyfrwng Cymraeg yn Nhrefynwy deithio'n bell i'r Fenni. I rai, bydd y cynnig yn golygu y bydd disgyblion yn gallu cael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg o fewn pellter cerdded neu amseroedd teithio llawer byrrach, sy'n gadarnhaol.

Cadarnhaodd y ddogfen ymgynghori na fydd disgyblion sy'n cael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol ar hyn o bryd i ddarpariaeth bresennol a fydd yn byw yn nalgylch yr ysgol 'egin' yn colli eu hawl i gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol.

Fodd bynnag, yn dilyn adborth o'r ymgynghoriad, mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai teuluoedd sydd eisoes â brodyr a chwiorydd hŷn sy'n mynychu Ysgol Gymraeg y Fenni am i'r ddau blentyn fynychu'r un ysgol a chael cludiant o'r cartref i'r ysgol i bob plentyn. Mae hyn yn rhywbeth y mae angen i'r Cyngor ei ystyried ymhellach fel rhan o'r broses ymgynghori.

## 9. Argymhellion

Mae'r cam ymgynghori o'r broses hon wedi rhoi'r cyfle i herio a phrofi'n sylweddol yr opsiwn a ffefrir gennym:

Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (Tachwedd 2018), mae'r adroddiad ymgynghori ar gyfer gwneud argymhellion i Gabinet y Cyngor ar sut y dylid bwrw ymlaen â'r cynigion. Yr opsiynau sydd ar gael yw:

1) Cyhoeddi'r cynigion fel yr ymgynghorwyd arnynt
2) Cyhoeddi'r cynigion fel yr ymgynghorwyd arnynt gydag unrhyw addasiadau priodol.
3) Rhoi'r gorau i'r cynigion a chynnal y 'status quo'.
4) Ail-lunio'r cynigion yn sylweddol ac ail-ymgynghori

Mae'r adroddiad hwn wedi dangos bod y Cyngor wedi gallu darparu mesurau lliniaru digonol yn erbyn y pryderon a amlygwyd yn ystod y broses ymgynghori hon. Rydym yn argymell felly bod yr opsiwn a ffefrir yn cael ei ystyried gan Gabinet y Cyngor fel rhan o gamau nesaf y broses statudol hon:

1) ***Cyhoeddi'r cynnig fel yr ymgynghorwyd arno - sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ar safle Ysgol Gynradd Overmonnow drwy fodel ysgol 'egin'***

## Atodiad 1 – Rhestr o Ymgyngoreion yr ymgynghorwyd â hwy

- Rhieni, gofalwyr/gwarcheidwaid ac aelodau o staff yr ysgolion y mae'r cynnig yn effeithio arnynt.
- Corff Llywodraethu unrhyw ysgol y mae'r cynnig yn effeithio arni.
- Disgyblion/Cynghorau Disgyblion ysgolion y mae'r cynnig yn effeithio'n uniongyrchol arnynt.
- Penaethiaid ysgolion yr effeithir arnynt gan y cynnig.
- Gweinidogion Cymru
- Cynghorau Tref a Chymuned yn ardal Trefynwy
- Aelodau Senedd Cymru sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan yr ysgol
- Aelodau Seneddol sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan yr ysgol
- Cyfarwyddwyr Addysg yr holl ALlau ffiniol – Blaenau Gwent, Casnewydd, Powys, Torfaen, Swydd Henffordd, Swydd Gaerloyw
- GAVO
- Undebau llafur dysgu
- Staff Cymorth undebau llafur
- Comisiynydd y Gymraeg
- ESTYN
- RHAG
- Mudiad Meithrin
- Ymddiriedolaeth Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru, Cyfarwyddwr Addysg
- Ymddiriedolaeth Esgobaethol Catholig Rhufeinig, Cyfarwyddwr Addysg
- Gwasanaeth Cyflawni Addysg De Ddwyrain Cymru
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent
- Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Fforwm Cymraeg mewn Addysg

## Atodiad 2 – Ymateb gan Estyn

Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ymgynghori ag ESTYN ar faterion statudol Trefniadaeth Ysgolion. Isod mae'r ymateb a dderbyniwyd gan ESTYN mewn perthynas â'r ymgynghoriad hwn i sefydlu Ysgol Gynradd Gymraeg ar safle Ysgol Gynradd Overmonnow.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Sefydliadau Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr i ddanfon dogfennau ymgynghori at Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff sy'n gorfod gweithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn mewn perthynas â materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi ei farn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried agweddau addysgol y cynnig ac wedi cynhyrchu'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigydd

**Cyflwyniad**

Mae'r cynnig ymgynghori hwn gan Gyngor Sir Fynwy. Y cynnig yw defnyddio'r llety presennol sydd ar gael ar safle Ysgol Gynradd Overmonnow i sefydlu ysgol gynradd 'egin' cyfrwng Cymraeg a darpariaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant o 1 Medi 2024.

**Crynodeb/Casgliad**

Mae Estyn o'r farn bod y cynnig yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth yn yr ardal o leiaf.

**Disgrifiadau a'r manteision**

Mae Cyngor Sir Fynwy wedi darparu sail resymegol ddefnyddiol ar gyfer y cynnig. Maent yn amlinellu'n glir y manteision a ddaw o greu ysgol 'egin' ar y safle presennol. Mae'r cynnig yn debygol o arwain at wella'r ddarpariaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn yr Awdurdod, yn ogystal â chefnogi strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050.

Mae'r cynigiwr yn rhoi sylw priodol i addasrwydd adeilad yr ysgol, gan amlinellu'r cyllid sydd ei angen i ddatrys materion cyflwr. Mae'n darparu gwybodaeth addas am ariannu strwythur staffio cychwynnol yr ysgol newydd. Mae'r cynigydd yn rhoi sylw priodol i'r galw am leoedd a chapasiti presennol ysgolion cyfrwng Saesneg a Chymraeg yn yr ardal. Mae'n ystyried effaith y ddarpariaeth ar nifer sy'n cael eu derbyn yn ysgol cyfrwng Saesneg ar hyn o bryd, ac ar y galw disgwyliedig am leoedd ysgol yn y dyfodol. Mae'r cynigydd hefyd yn ystyried yr effaith ar niferoedd disgyblion mewn ysgolion eraill yn yr ardal ac ar drosglwyddo i ysgolion uwchradd.

Mae'r Cyngor Sir yn rhoi disgrifiad clir o'r amserlen ragamcanol ar gyfer gweithdrefnau statudol ac ar gyfer gweithredu'r cynigion. Mae cryfderau a gwendidau pob un o'r opsiynau a ystyriwyd yn ddigon manwl. Mae'r cynigydd wedi nodi effaith debygol y cynnig. Yn gyffredinol, mae'r cynnig yn ystyried y risgiau prosiect yn briodol.

Mae'r cynnig yn ystyried ystod o ddewisiadau amgen yn fanwl ac yn rhoi sail resymegol ar gyfer y canlyniad a ffefrir. Mae’n ymddangos bod y cynnig yn cefnogi’r targedau yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr Awdurdod Lleol. Mae'n cyfeirio at y pellteroedd teithio byrrach i deuluoedd sy'n ceisio addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Mae'n nodi'r effaith bosibl ar ysgolion cyfrwng Saesneg yr ardal ac ysgolion cyfrwng Cymraeg yr Awdurdod. Mae’n ystyried trefniadau pontio a’r cynlluniau i liniaru yn erbyn amseroedd teithio hir i’r ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg agosaf. Mae'r cynnig yn ystyried effaith cynnwys meithrinfa a gynhelir a meithrinfa nas cynhelir yn dda. Mae'n rhoi sylw dyledus i ddiogelu cyflogaeth.

Mae costau ariannol tymor byr y cynnig wedi'u nodi'n addas. Mae'r Cyngor yn nodi'r cyfraniad sydd i'w wneud tuag at adnewyddu ac ôl-groniad o waith cynnal a chadw gan gyllid grant Llywodraeth Cymru.

## Agweddau addysgol y cynnig

Wrth ystyried effaith y cynnig ar ddysgu; lles ac agweddau at ddysgu; profiadau addysgu a dysgu; gofal, cymorth ac arweiniad ac arweinyddiaeth a rheolaeth, mae'r Cyngor wedi rhestru canlyniadau artolwg diweddaraf Estyn ar gyfer ysgolion yn yr ardal. Mae’r cynnig yn awgrymu’r ffyrdd y bydd yn cefnogi’r tîm arwain i lunio’r ddarpariaeth addysgu a dysgu i gefnogi’r gwaith o gyflwyno’r cwricwlwm.

Mae Cyngor Sir Fynwy yn ystyried effaith y cynnig ar les a gofal yn briodol. Mae’n gwneud cysylltiad rhwng cryfhau dewis rhieni yn y dref a lleihau amser teithio i’r rhai sy’n dewis addysg cyfrwng Cymraeg. Mae’r cynigydd yn awgrymu bod amseroedd teithio byrrach yn debygol o wella lles plant yn y ddarpariaeth ysgol ‘egin’. Nid yw'n nodi sut y bydd yn lliniaru problemau rheoli traffig posibl.

Mae asesiad effaith cydraddoldeb priodol wedi'i gynnal a chanfuwyd na ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol ar unrhyw grŵp. Mae'r cynigydd yn nodi sut y mae'n bwriadu lliniaru effaith negyddol bosibl y cynnig mewn perthynas â phobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol.

Nid yw'r cynnig yn nodi'n ddigonol yr aflonyddwch i ddysgwyr tra bod gwaith adeiladu ac adnewyddu yn cael ei wneud